Cyngor Tref Caerfyrddin
Carmarthen Town Council

DATGANIAD I'R WASG – PRESS RELEASE

DIFROD YN ARDAL CHWARAE I BLANT YM MHARC PENLLWYN

Bu rhaid cau'r ardal chwarae i blant ym Mharc Penllwyn o ganlyniad i ddifrod a achoswyd i offer chwarae yn ystod penwythnos y Pasg.

Dywedodd Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin, Alun Harries: 'Yn anffodus mae rhywun wedi cario carreg drom i'r ardal chwarae a'i defnyddio i dorri drwy'r sleid yn fwriadol, ac yna ei ddinistrio. Rydym wedi gorfod cau'r ardal chwarae yn gyfan gwbl nes i ni gael sleid newydd'.

'Nid ydym wedi cael unrhyw broblemau yn yr ardal benodol hon ers i'r offer cael ei osod yno bron i bum mlynedd yn ôl, ac y mae'n hynod rwystredig i'r gymuned leol fod pwy bynnag sydd wedi gwneud hyn wedi cau'r parc i bob pwrpas yn ystod y tywydd braf yr ydym yn ei fwynhau ar hyn o bryd, ac felly mae'r bobl yn methu mwynhau'r ardal'.

Mae'r materion hyn wedi eu hadrodd i'r heddlu lleol a gofynnir i unrhyw un sydd â gwybodaeth i gysylltu â Heddlu Caerfyrddin ar 101.

Alun J Harries
Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin – Clerk, Carmarthen Town Council
01267 235199

15fed o Ebrill 2021